Annwyl Arwyn,

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref 2020.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu deilliant y gwaith hwn yn GwE. Mae cynnwys y llythyr wedi'i seilio ar gyfarfodydd rhithwir gyda swyddogion ynghyd a gwybodaeth o sampl o ysgolion ac UCD yn yr awdurdodau addysg ar draws y rhanbarth.  Rydym hefyd wedi ystyried y ddogfennaeth ategol a ddarparwyd gan swyddogion GwE a'r adborth o arolygon o arweinwyr ysgol/UCD, llywodraethwyr, athrawon a staff cymorth, rhieni a disgyblion.  Rydym wedi cyfeirio at y deilliannau o'r arolygon lle bo'n berthnasol, er y defnyddiwyd yr arolygon yn bennaf i lywio'r adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd ar ein gwefan ar 15 Ionawr.  Dyma ddolen i'r adroddiad hwnnw.

Hoffem ddiolch i'ch staff am roi o'u hamser i drafod eu gwaith gyda ni ac am ddarparu gwybodaeth ychwanegol pan ofynnwyd amdani.

Yn gywir,

**Meilyr Rowlands**
**Prif Arolygydd Ei Mawrhydi**

## Gwaith y consortia rhanbarthol i gefnogi ysgolion ac UCDau: Mawrth – Awst 2020

### Arweinyddiaeth a chydweithio

Gweithiodd deiliaid portffolio addysg a chyfarwyddwyr addysg o’r chwe awdurdod lleol gyda GwE i drafod effaith y pandemig ar addysg. Cytunont ar ddull rhanbarthol cyson i geisio lliniaru ei effeithiau.

Gweithiodd arweinwyr GwE yn agos â rheolwyr awdurdodau lleol i ddatblygu a rhannu canllawiau rhanbarthol i helpu ysgolion ac UCDau drwy’r pandemig. Ar ddechrau’r cyfnod clo, cytunwyd ar strategaeth gyfathrebu gyda chyfarwyddwyr y chwe awdurdod lleol a GwE. Yn rhan o’r strategaeth hon, cysylltodd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) ag ysgolion yn rheolaidd i gynorthwyo penaethiaid a lleddfu pryderon. Roedd cysylltiad rheolaidd ag ysgolion er mwyn cefnogi iechyd a lles staff a disgyblion yn flaenoriaeth i’r consortiwm a chroesawodd ysgolion y dull hwn. Mewn sawl achos, dosbarthodd y consortiwm ei staff i awdurdod lleol i helpu gyda gwasanaethau hanfodol i ysgolion ac UCDau i’w cynorthwyo i aros ar agor.

Parhaodd y consortiwm i weithredu ei strwythur llywodraethu o ddechrau’r cyfnod clo. Cyfarfu Cydbwyllgor GwE yn rhithwir ac ystyriodd ddiwygiadau i’w gynlluniau a’i waith yn sgil y pandemig. Hefyd, parhaodd y Cydbwyllgor â materion y byddai’n eu hystyried fel arfer, fel gwerth y gwasanaeth am arian ac adroddiadau archwilio. Gweithiodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a’r Cydbwyllgor yn dda i ragweld a chynllunio ar gyfer problemau yn rhagweithiol. Er enghraifft, trafodont sefydlu ymagwedd ranbarthol at sut roedd disgyblion yn pontio’n ôl i ysgolion mewn da bryd cyn i unrhyw benderfyniadau terfynol gael eu gwneud yn genedlaethol. Galluogodd hyn awdurdodau lleol, GwE ac ysgolion i baratoi ac ymateb yn gyflym pan roddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd i ysgolion ailagor i fwy o ddysgwyr.

Daeth ysgolion a darparwyr i’r arfer fwyfwy â gweithio’n rhithwir a chawsant gymorth gan y consortiwm rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ddatblygu’u ffyrdd o weithio. Soniodd llawer o ysgolion eu bod yn gwerthfawrogi’r cyfarfodydd cyswllt ar-lein rheolaidd gyda’u YCG. Fe wnaeth y rhain gynnwys cyfarfodydd o fewn clystyrau ysgolion ar draws y rhanbarth i rannu diweddariadau rheolaidd, ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd a sicrhau bod penaethiaid yn gallu rhannu unrhyw broblemau a phryderon.

Gweithiodd y consortiwm yn dda yn genedlaethol i ddatblygu canllawiau dysgu o bell i ysgolion, ar y cyd â rhanbarthau eraill. Mae’r rhanbarth wedi parhau i edrych ar ymchwil ryngwladol a cheisiodd gyngor allanol i wella ymarfer.

**Hyrwyddo dysgu**

O fis Mawrth 2020 ymlaen, addasodd GwE ei waith i ganolbwyntio ar 5 cyfnod penodol. Dyma oedd y rhain: cyn y cyfnod clo; cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo; dysgu o bell; cynorthwyo ysgolion i ailagor a'r cyfnod dysgu cyfunol. Cydnabu GwE y byddai rôl ei YCG yn esblygu wrth gynorthwyo ysgolion i ddatblygu'u dulliau dysgu o bell.

Gweithiodd GwE yn agos â'i awdurdodau lleol i rannu canllawiau a chyngor i ysgolion yn ystod pob cyfnod. Cafodd adnoddau, gwefannau a deunyddiau dysgu proffesiynol eu rhannu gydag ysgolion, gan gynnwys fideos 'Sut i', i helpu athrawon ddatblygu'u hymagweddau at ddysgu o bell. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol o'r farn bod GwE wedi cynnig cymorth defnyddiol trwy ei blatfform digidol 'Canolfan Gymorth GwE'. Mae hwn yn cynnwys yr holl adnoddau a deunyddiau a luniwyd gan y consortiwm yn ystod cyfnod COVID-19. Sicrhaodd GwE fod staff a dysgwyr yn gallu troi at amrywiaeth o ddeunyddiau dysgu'r ystafell ddosbarth, er enghraifft cymorth i gynnal a datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol. Sefydlodd GwE ystafell ddosbarth ar-lein i bob cyfnod allweddol a lanwythodd gronfa gychwynnol o adnoddau ymarferol a dolenni i ysgolion eu haddasu a'u defnyddio gyda'u dysgwyr. Yn ogystal, roedd y platfform yn cynnwys adnoddau i helpu cynnal cysylltiadau rhwng staff addysgu a staff cymorth yn ystod y cyfnod hwn o unigedd cymdeithasol posibl, gan gynnwys cymorth i feithrin gwydnwch a lles personol.

Cydnabu GwE fod ysgolion wedi cyrraedd camau amrywiol wrth ddatblygu cymorth ar gyfer dysgu o bell ac y byddai eu dull yn amrywio yn ôl eu cyd-destun a'u gallu. Yn ystod y cyfnod hwn, lluniodd y consortiwm ganllaw i gefnogi dysgu effeithiol o bell ac aeth ati i helpu ysgolion i lunio'u modelau dysgu o bell eu hunain. Fe wnaeth hyn gynnwys modelau enghreifftiol er mwyn rhannu arfer dda ar draws y rhanbarth. Roedd llawer o'r rhain wedi'u seilio ar ymchwil ryngwladol ac ennill dealltwriaeth fanylach o ddulliau ac egwyddorion dysgu o bell.

Rhwng Mawrth a diwedd Mai, cynhaliodd GwE drosolwg o lefel ymgysylltiad dysgwyr â dysgu o bell. Cysylltodd YCG â phob ysgol i gasglu adborth ar ymgysylltiad dysgwyr. Roedd gan lawer o'r YCG wybodaeth yn barod am lefel yr ymgysylltiad ac roeddent yn gallu cydweithio ag ysgolion. Galluogodd y gwaith hwn i'r consortiwm ddatblygu trosolwg rhanbarthol o arfer bresennol a nodi arfer effeithiol i lywio ac ategu canllawiau rhanbarthol. Helpodd y wybodaeth amlygu rhwystrau allweddol rhag ymgysylltu gan ddysgwyr a sut gallai'r consortiwm helpu ysgolion, ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. Hefyd, nododd yr adroddiad fod angen cryfhau sut roedd ysgolion yn olrhain effaith ymgysylltiad.

O fis Mehefin ymlaen, gweithgaredd allweddol oedd helpu i gynllunio sut roedd disgyblion yn pontio'n ôl i'r ysgol gyda meddylfryd cadarnhaol, a pharhau â'u dysgu mor ddi-dor â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cymorth i ysgolion sicrhau iechyd a lles dysgwyr a oedd yn dychwelyd i ystafell ddosbarth wahanol iawn yn ystod y cyfnod dychwelyd yn raddol, a chynorthwyo athrawon wrth bontio o atgyfnerthu

dysgu blaenorol i addysgu agweddau newydd. Yn ogystal, cynorthwyodd YCG ysgolion â syniadau am fonitro gwaith disgyblion a rhoi adborth adeiladol arno.

Gwerthusodd GwE gapasiti a gallu ysgolion yn ei ranbarth i ddefnyddio'r platfformau dysgu amrywiol sydd ar gael. Darparodd hyn ddealltwriaeth i'r consortiwm o ba ysgolion yr oedd angen help ychwanegol arnynt i ddatblygu'u hadnoddau dysgu o bell ar-lein a pha aelodau staff yr oedd angen hyfforddiant pellach arnynt ar ddefnyddio'r dechnoleg. Yn gyffredinol, nododd sawl ysgol yn rhanbarth GwE eu bod yn gweld gwerth yr adnoddau digidol a ddarparodd y consortiwm yn ystod y cyfnod hwn. Nododd nifer o benaethiaid fod eu staff wedi dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio technoleg a bod cynnydd yn ei defnydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu yn gyffredinol.

Roedd llawer o ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth parhaus ar gyfer dysgu proffesiynol. Er enghraifft, darparodd GwE gymorth i gynorthwywyr addysgu trwy ddatblygu ystafell ddosbarth ar-lein, a oedd yn cynnwys cyfres o gyfleoedd datblygu proffesiynol. Hefyd, roedd ysgolion yn gadarnhaol am gymorth YCG ar gyfer meysydd pwnc yn y sector uwchradd a'u cyfarfodydd rheolaidd â grwpiau o arweinwyr pwnc. Hefyd, mae'r consortiwm wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol i'w staff ei hun er mwyn datblygu'u dealltwriaeth o ddysgu o bell, gan gynnwys ymchwilio i arfer orau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Siaradodd awdurdodau lleol yn y rhanbarth am eu perthynas agored a chadarnhaol gyda GwE sydd, yn eu barn nhw, ar flaen y gad o ran datblygu parhad cymorth dysgu a chanllawiau i ysgolion. Mae awdurdodau lleol o'r farn bod y consortiwm wedi cynnig cymorth gwerthfawr ar ddechrau Mehefin, pan ddychwelodd llawer o ddisgyblion i ysgolion, ac eto ar ddechrau mis Medi. Er enghraifft, rhoddodd GwE gymorth ac arweiniad fel y gallai staff, disgyblion a rhieni ddod i'r arfer â threfniadau newydd oedd â'r nod o gadw pawb yn ddiogel i ailagor ysgolion.

Ar lefel genedlaethol, gweithiodd GwE yn agos â chonsortia rhanbarthol eraill i ddatblygu ymateb colegol i'r amgylchiadau heriol iawn hyn. Cynhaliodd arweinwyr a staff GwE drafodaethau a chydweithredu rheolaidd â Llywodraeth Cymru ar gyflwyno'r Cynllun Parhad Dysgu ac maent ynghlwm wrth gefnogi'r rhan fwyaf o'r deilliannau allweddol. Roedd GwE yn allweddol o ran annog datblygu a chyhoeddi canllawiau dysgu cyfunol a modelau dysgu cyfunol enghreifftiol mewn cydweithrediad ag Estyn a'r consortia rhanbarthol eraill.

### Cefnogi dysgwyr bregus

Ar 23 Mawrth, cafodd ysgolion eu haddasu i gefnogi disgyblion a oedd yn blant i weithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus. I ymateb i hynny, addasodd GwE ei waith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chymorth i ysgolion yn ei ranbarth. Cafodd rolau rhanbarthol a lleol eu nodi er mwyn cefnogi dysgwyr bregus a manteisiodd staff GwE ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach i'w helpu i gefnogi arweinwyr ysgol yn y meysydd hyn.

Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddodd GwE help i ysgolion ac awdurdodau lleol, gyda ffocws ar ddiogelwch a lles disgyblion a'r gweithlu.  Gyrrwr allweddol y gwaith hwn oedd sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer lles corfforol a meddyliol disgyblion a phobl ifanc, gan gynnwys eu paratoi i ddychwelyd i'r ysgol gyda symbyliad a brwdfrydedd i ddysgu.  Sicrhaodd YCG y consortiwm gysylltiad rheolaidd â phenaethiaid eu hysgolion cyswllt i wirio'u lles ac i sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol.

Mae'r consortiwm rhanbarthol yn nodi bod ymarferoldeb agor ysgolion i bob dysgwr ar gyfer y cyfnod 'Ailgydio, dal i fyny' yn gymhleth.  Fe wnaeth Bwrdd Rheoli GwE ymroi i weithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth i fabwysiadu ymagwedd gyson at ddatblygu fframwaith cefnogol i helpu ysgolion yn ystod y cyfnod hwn.  Fel rhan o hyn, gweithiodd YCG GwE gyda chynrychiolwyr yr awdurdod lleol i lunio cynllun dychwelyd i'r ysgol.  Y nod oedd helpu pob ysgol yn y rhanbarth i sicrhau bod y polisïau cywir ar waith ganddynt a bod ganddynt asesiad risg cynhwysfawr y gallent ei haddasu i'r amgylchiadau yn eu hysgol nhw.  Gweithiodd GwE gyda'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth i ddatblygu ymagwedd gyffredin at asesu risg. Roedd hyn yn ganllaw i arweinwyr ysgol gynllunio i ailagor ysgolion ac UCDau ar gyfer y cyfnod 'Ailgydio, dal i fyny' ac ailagor yn llawn ym Medi.  Cyflwynir y fframwaith asesu risg ar ffurf dangosfwrdd ac mae'n cynnwys polisïau, dogfennau a rhestri gwirio.  Cafodd ei ddiweddaru'n rheolaidd wrth i ganllawiau Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi.  Sicrhaodd swyddogion iechyd a diogelwch corfforaethol awdurdodau lleol yr ansawdd a phrofi'r gweithdrefnau er mwyn mynd i'r afael â phryderon a phroblemau.  Mae arweinwyr ysgol yn nodi'u bod yn gwerthfawrogi'r ymagwedd gyson ar draws ardal yr awdurdod lleol a'r rhanbarth ac, yn benodol, y dangosfwrdd a ddatblygodd GwE.  Yn ogystal, roedd eu barn am y sianeli cyfathrebu defnyddiol, gan gynnwys y fforymau i benaethiaid, yn gadarnhaol.

Gweithiodd y consortiwm mewn partneriaeth â swyddogion yr awdurdod lleol, fel y timau cynhwysiant, adnoddau dynol a chludiant, i ystyried anghenion a phrofiadau dysgu priodol dysgwyr, yn benodol, i gefnogi'u hiechyd a'u lles.  Parhaodd YCG GwE ac awdurdodau lleol i weithio'n agos gydag ysgolion wrth iddynt weithio i addasu'u lleoliadau fel eu bod mor ddiogel â phosibl i'w dysgwyr.

## Gwaith y consortiwm rhanbarthol i gefnogi ei ysgolion ac UCDau o Fedi 2020 ymlaen

### Arweinyddiaeth a chydweithio

Er mwyn paratoi i ddisgyblion ddychwelyd yn llawn i ysgolion ac UCDau ym Medi, fe wnaeth GwE ddiwygio'i gynllun gwaith, gan addasu ei flaenoriaethau i fodloni anghenion ysgolion.

Parhaodd GwE i weithio'n agos g awdurdodau lleol, ysgolion ac UCDau.  Mae tystiolaeth o'n galwadau ymgysylltu yn awgrymu bod ysgolion yn rhoi pwys ar y

cymorth a’r hyfforddiant y mae YCG rhanbarthol yn eu rhoi ar ddysgu ac addysgu, yn arbennig yr arweiniad ar ddysgu cyfunol a dysgu digidol.

Mae GwE wedi bod yn yrrwr allweddol yn helpu i ledaenu gwybodaeth ac arweiniad i ysgolion. Er enghraifft, trwy ei ‘ddangosfwrdd lles cyffredinol a chymorth i ddysgwyr’, datblygwyd cyfeiriadur dysgu proffesiynol a rhannwyd amrywiaeth o arweiniad gyda’r holl ysgolion ar draws y rhanbarth. Rhoddwyd gwybod am hyn drwy ddull clwstwr a chyda swyddogion ym mhob awdurdod lleol. Ar ddechrau’r cyfnod clo, dywedodd lleiafrif o ysgolion eu bod yn cael trafferth cael at y wybodaeth gywir yn brydlon. O ganlyniad i hyn, gwnaeth GwE ddiwygiadau i’r wefan ac, ers Medi, mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn canmol y defnydd o’r dangosfwrdd a hygyrchedd ffynonellau gwybodaeth eraill gan GwE a’u hawdurdod lleol. Ar y cyfan, mae’r cyfathrebu a’r gallu i gael at wybodaeth wedi gwella’n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn.

Mae’r ‘Grŵp Dychwelyd i’r Ysgol’ rhanbarthol, gyda chynrychiolwyr y chwe awdurdod lleol a GwE, wedi bod yn gyfrwng defnyddiol i lywio dull cydlynedig i ymateb i heriau COVID-19 ar draws y rhanbarth.

**Cameo: ‘Grŵp Dychwelyd i’r Ysgol’ Rhanbarthol**

Nod sefydlu’r grŵp oedd datblygu dull rhanbarthol cyson, cydlynol a chydweithredol i ymateb i heriau COVID-19 ar draws y chwe awdurdod lleol. Nod y grŵp oedd:

- darparu cymorth amserol a phriodol i bob ysgol
- sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cadw’n ddiogel ac yn iach yn ystod y cyfnod hwn
- hyrwyddo cynnig dysgu o ansawdd uchel (trwy ddysgu o bell a dysgu cyfunol)
- sicrhau bod sianeli cyfathrebu clir wedi’u sefydlu i alluogi gwybodaeth i lifo i’r ddau gyfeiriad ar draws y rhanbarth – gyda’r ysgol a’r gymuned ehangach
- gwrando ar lais penaethiaid
- cefnogi lles penaethiaid a staff ysgolion
- darparu fframwaith cynhwysfawr i ysgolion i gynorthwyo â’r gwaith o ailddechrau ysgolion, gan gynnwys cymorth ag asesiadau risg
- rhoi ffocws newydd i waith aelodau tîm GwE lle bo’r angen i gefnogi cydweithwyr yn yr awdurdod lleol.

Yn ystod y cyfnod hwn, buodd y grŵp:

- yn gweithio mewn partneriaeth i gynnig i ysgolion fatrics asesu risg ar gyfer lleoliadau cynradd, uwchradd, arbennig ac UCDau
- yn datblygu dangosfwrdd o adnoddau, gyda chanllawiau rhanbarthol a chenedlaethol, yn ‘siop un stop’ i bob ysgol droi ato
- yn ysgrifennu, ar y cyd, ddiwygiadau neu atodiadau COVID-19 i bolisïau presennol i bob ysgol ar draws y rhanbarth eu defnyddio
- yn datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer gwaith y grŵp yn seiliedig ar dri philer ‘hysbysu, cefnogi, gwrando’

- yn cydlynu cyfraniadau gan is-grwpiau rhanbarthol i ddarparu negeseuon cyson ac amserol i ysgolion ynghylch arweiniad adnoddau dynol, cludiant a chymorth i ddysgwyr, yn cynnwys cymorth lles targedig a chyffredinol
- yn cynorthwyo pob ysgol ag adnoddau er mwyn datblygu dysgu cyfunol, fel rhan o hyrwyddo darpariaeth dysgu o ansawdd uchel i bob dysgwr ym mhob ysgol
- yn cynorthwyo pob ysgol ag adnoddau i helpu gyda chynllunio dysgu carlam

Yn ein cysylltiad ag ysgolion ac awdurdodau lleol yn y rhanbarth, roedd llawer yn gwerthfawrogi'r ymagwedd gydlynedig yn ystod y cyfnod hwn. Mae hwyluso a chryfhau cydweithredu a gweithio mewn tîm ar sawl lefel rhwng yr awdurdodau lleol a GwE wedi cael effaith gadarnhaol ar ysgolion ar draws rhanbarth y gogledd. Mae rhai ysgolion wedi dweud bod ganddynt ddealltwriaeth gliriach erbyn hyn o'r rolau a'r cyfrifoldebau o ran mynd i'r afael â materion gyda'r pandemig ac maent yn gwerthfawrogi gallu cydweithio ar draws clystyrau i rannu a manteisio ar arbenigedd. Nododd ychydig o benaethiaid fod cynnal ffocws dysgwyr a staff ar ailagor ysgolion wedi magu hyder ymhlith arweinwyr ysgol, staff a theuluoedd.

I sicrhau parhad i'w dysgwyr, mae cynllunio ar gyfer senarios gwahanol, ar sawl lefel, hefyd wedi bod yn weithgarwch allweddol i arweinwyr awdurdodau lleol a GwE ers mis Medi. Nododd arweinwyr fod angen helpu a pharatoi ysgolion ar gyfer digwyddiadau posibl yn y dyfodol sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Trwy hyn, fe wnaeth GwE a'r awdurdodau lleol annog ysgolion i fyfyrio ar wersi a ddysgwyd o'r cyfnod clo a chynllunio senarios ar gyfer cyfnod clo pellach posibl. Ers dychwelyd ym Medi, mae llawer o ysgolion wedi wynebu heriau amrywiol, er enghraifft gyda disgyblion gartref yn hunanynysu. Fe wnaeth yr amrywiol senarios gynnwys ystyried sut olwg allai fod ar ddysgu mewn gwahanol gyd-destunau, o ysgol sydd ar agor yn llawn, i senario lle mae pob disgybl yn dysgu gartref. Helpodd hyn i'r consortiwm ac ysgolion ystyried cadernid eu modelau dysgu o bell a dysgu cyfunol.

Mae uwch arweinwyr GwE yn parhau i ddarparu cyfeiriad a gweledigaeth yn rhagweithiol i gefnogi arweinwyr mewn ysgolion. Yn benodol, maent yn gwybod bod penaethiaid, arweinwyr ysgol a swyddogion addysg yn gweithio o dan amgylchiadau anodd. Mae'r holl YCG wedi parhau â'u cysylltiad rheolaidd â phenaethiaid eu hysgolion cyswllt, i wirio'u lles a sicrhau eu bod yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen. I ategu hyn ymhellach, mae cyfres o weithdai ar gael i arweinwyr ysgol a swyddogion addysg gyda ffocws ar eu lles, fel datblygu gwydnwch, addasu yn wyneb amgylchedd sy'n newid a myfyrdod personol. Mae'r cymorth parhaus hwn i'r gweithlu yn dangos ymwybyddiaeth gadarn gan arweinwyr yn GwE a'r awdurdodau lleol o'u hanghenion datblygu a lles tebygol yn y dyfodol agos.

Rhoddodd GwE gyngor ac arweiniad i benaethiaid fel y gallent ystyried sut i addasu cynlluniau strategol eu hysgol o dan yr amgylchiadau presennol. Er bod adolygu cynnydd yn erbyn cynlluniau datblygu ysgol 2019-20 yn statudol o hyd, mae'r consortiwm yn nodi bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi mynd ati'n bwyllog trwy adolygu'u blaenoriaethau hyd at fis Mawrth. Darparodd y consortiwm arweiniad ychwanegol i arweinwyr ysgol ar gynnwys posibl eu cynlluniau datblygu ysgol i'w galluogi i adrodd ar gynnydd y tu hwnt i fis Mawrth. Fe wnaeth hyn gynnwys

posibiliadau i ysgolion ystyried cynnydd o ran eu gwaith ar ddysgu o bell, dysgu proffesiynol staff ac addasiadau i'r cwricwlwm, yn gyson â'r hyn roedd angen iddynt fynd i'r afael ag ef yn ystod y pandemig.

**Hyrwyddo dysgu**


Yn ystod tymor yr haf a thros wyliau'r haf, gweithiodd GwE a'r awdurdodau lleol gydag ysgolion ac UCDau i ategu'r cynllunio ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym Medi.

**Cameo: Model Ailgychwyn Dysgu ar gyfer Gogledd Cymru**

Datblygodd GwE fodel ranbarthol, gydag awdurdodau lleol ac ysgolion, i sicrhau bod modd bodloni anghenion unigol dysgwyr, gan ystyried eu cyd-destun lleol. Gwerthusodd y model barodrwydd a dull yr ysgol i sicrhau bod dysgu'n parhau i bob disgybl. Canolbwyntiodd ar dair elfen gydgysylltiedig sy'n asesu parodrwydd disgyblion i ddysgu. Dyma'r tair elfen:

- lles emosiynol a meddyliol
- Iechyd a ffitrwydd corfforol
- medrau rhifedd a llythrennedd craidd, medrau annibyniaeth a pharodrwydd ar gyfer dysgu newydd.

Mae'r tair elfen wedi'u rhannu'n gategorïau angen:




Ffynhonnell: Consortiwm rhanbarthol GwE

Roedd angen i ysgolion sicrhau eu bod yn gallu cynnig darpariaeth i'w dysgwyr ym mhob maes i sicrhau tegwch a chydraddoldeb. Cytunwyd ar gyfrifoldeb am gynorthwyo ysgolion i gyflwyno pob elfen rhwng awdurdodau lleol, GwE ac asiantaethau eraill i gynllunio darpariaeth briodol i fodloni anghenion pob dysgwr.

Nod y model yw cynorthwyo ysgolion i helpu dysgwyr i ddychwelyd i 'ffitrwydd dysgu' a datblygu dysgu sy'n caniatáu i ddisgyblion barhau i wneud cynnydd. Mae

sicrhau cydlyniad i ddysgwyr rhwng dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell yn elfen allweddol arall o'r model, gan gynnwys datblygu dysgu priodol pan fo gofynion presennol y cwricwlwm wedi'u datgymhwyso.

Rhoddodd llawer o awdurdodau lleol ac ysgolion ganmoliaeth i rôl GwE yn cydlynu gwaith partneriaeth rhwng ysgolion ac UCDau, ar lefel clwstwr mewn ysgolion cynradd a thrwy agosrwydd daearyddol yn y sector uwchradd. Mae'r dull hwn wedi golygu bod ysgolion ac UCDau yn gallu derbyn cymorth cwricwlaidd gwerthfawr gan eu YCG a throi at swyddogion yr awdurdod lleol am gymorth gweithredol.

Mae GwE yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i gynorthwyo ysgolion ac UCDau i ddatblygu cwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion. Yn ystod ein galwadau ymgysylltu, teimlodd llawer o ysgolion fod GwE a'u hawdurdod lleol wedi'u cefnogi'n dda yn ystod y cyfnod hwn. Roedd penaethiaid yn gyson eu barn bod GwE wedi cynorthwyo ysgolion i gyflwyno cwricwlwm mor eang â phosibl, er gwaethaf y cyfyngiadau. Mae llawer o ysgolion cynradd wedi addasu'u cynlluniau o Fedi ymlaen i gynnwys mwy o bwyslais ar weithgareddau sy'n hyrwyddo lles dysgwyr. Mewn llawer o ysgolion, roedd hyn yn golygu addasu'r thema neu'r pwnc y bwriadont ymdrin ag ef yn ystod y tymor hwn. Hefyd, rhoddodd y rhan fwyaf o ysgolion fwy o bwyslais ar gynyddu'u ffocws ar ddatblygu medrau craidd disgyblion. Serch hynny, mae ychydig YCG cynradd arweiniol yn nodi bod y cwricwlwm wedi culhau yn gyffredinol. Mae GwE wedi rhannu modelau cyflwyno newydd gyda phenaethiaid cynradd i geisio gwrthbwyso'r mater hwn.

Dywed penaethiaid ysgolion uwchradd fod gweithio yng nghyfnod COVID-19 yn her i athrawon mewn ychydig o bynciau, yn enwedig wrth roi cyfleoedd i ddisgyblion gwblhau gwaith ymarferol, er enghraifft mewn dylunio a thechnoleg, gwyddoniaeth, celf, cerddoriaeth ac addysg gorfforol. Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi addasu'u darpariaeth i ymdopi â'r anawsterau hyn. Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae arweinwyr wedi addasu'u hamserlen i gynnal mwy o wersi dwbl. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion ymateb i ganllawiau iechyd a diogelwch a chynnal cwricwlwm cytbwys ar yr un pryd. Mewn ychydig o ysgolion, mae adrannau wedi addasu'u cynlluniau gwaith i oresgyn anawsterau ymarferol, fel methu defnyddio ystafelloedd arbenigol.

Y tymor hwn, mae YCG a swyddogion addysg awdurdodau lleol wedi parhau i gydweithio i ychwanegu at yr amrywiaeth o ddeunyddiau dysgu ac addysgu sydd ar gael i athrawon a staff cymorth trwy blatfform ar-lein GwE. Dywed penaethiaid fod yr adnoddau hyn yn cynnig cymorth gwerthfawr i'w staff. Esboniodd swyddogion GwE fod llawer o ysgolion uwchradd wedi defnyddio'r adnoddau a'u bod, yn benodol, wedi troi at unedau gwaith amlddisgyblaeth sy'n cyd-fynd yn dda ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o awdurdodau'n dweud bod GwE wedi hybu cydweithredu a chydweithio rhwng ysgolion ac o fewn ysgolion yn adrannol. Y tymor hwn, mae athrawon yn y rhanbarth yn rhannu adnoddau ar sail pob maes dysgu a phrofiad i fynd i'r afael â'r angen i gefnogi model cwricwlwm eang a chyfoethocach.

Soniodd llawer o ysgolion yr ymgysylltodd Estyn â nhw fod nifer sylweddol o ddisgyblion, pan ddychwelont i'r ysgol yn wreiddiol ym Medi, wedi bod angen

cymorth pellach i ddal i fyny â'u medrau llythrennedd a rhifedd. Yn benodol, nododd ysgolion yn y rhanbarth fod canolbwyntio'n barhaus ar ailsefydlu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion yn flaenoriaeth. I fynd i'r afael â hyn, cydlynodd GwE gyfleoedd i ysgolion cyfrwng Cymraeg weithio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol i ddatblygu a rhannu adnoddau. Er enghraifft, mae ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg o Wrecsam, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy wedi cydweithio i ddatblygu adnoddau i gefnogi medrau llafaredd disgyblion. Dros amser, mae GwE a'i ysgolion wedi adeiladu casgliad cadarn o adnoddau sydd ar gael ar-lein i ysgolion a rhieni yn y rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o adnoddau Cymraeg i ysgolion sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith ac adnoddau dwyieithog i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg. Hefyd, mae GwE wedi codi ymwybyddiaeth o ddeunyddiau ychwanegol sydd ar gael. Er enghraifft, maent wedi hyrwyddo 'Y Pair' fel rhwydwaith yn Hwb a sefydlwyd i rannu adnoddau Cymraeg a addaswyd ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac 'Y Gist' fel rhwydwaith i athrawon Cymraeg ail iaith. Yn gyffredinol, wrth i dymor yr hydref fynd rhagddo, teimlai ychydig o benaethiaid fod medrau Cymraeg wedi adfer yn dda, yn enwedig yn achos disgyblion hŷn.

Yn ein harolwg o arweinwyr ysgol, nododd llawer ohonynt eu bod yn cael gwybodaeth ddefnyddiol gan GwE ar ymagweddau at ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion hyn yn fwy cadarnhaol yn rhanbarth GwE nag yn y tri chonsortiwm arall. I lawer o ysgolion ac UCDau, roedd y wybodaeth, yr adnoddau a'r enghreifftiau o arfer ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol a luniwyd gan GwE yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer datblygu'u harfer eu hunain. Rhannwyd gwybodaeth a dysgu proffesiynol trwy amrywiaeth o fforymau a rhwydweithiau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd clwstwr, cyfarfodydd i benaethiaid, fforymau penodol i bwnc a grwpiau dysgu ac addysgu. Mae GwE wedi cynnig gweminarau a sesiynau cymhorthfa i rannu adnoddau a datblygu dealltwriaeth athrawon o ddysgu ac addysgu ar-lein ac o bell effeithiol. Yn ogystal, mae GwE wedi cynnig hyfforddiant i gynorthwywyr addysgu trwy blatfform ar-lein. Mae llawer o ysgolion ac UCDau wedi defnyddio'r adnoddau fel sylfaen i'w pecyn eu hunain o ddysgu proffesiynol i gefnogi cymhwysedd digidol athrawon a chynorthwywyr addysgu. Yn gyffredinol, mae arweinwyr ysgol yn nodi bod staff wedi datblygu'u medrau digidol a'u bod mewn sefyllfa well i gynnig amrywiaeth o brofiadau dysgu ar-lein os oes angen i ddisgyblion ddysgu adref.

**Cameo: Ymagwedd at fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd dysgu o bell**

Yn dilyn cyfarfodydd clwstwr gyda'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i drafod dysgu o bell a dysgu cyfunol, rhoddodd un ysgol ddull dysgu o bell digidol ar brawf tra oedd disgyblion yn y dosbarth. Cwblhaodd un grŵp o ddisgyblion weithgareddau a thasgau ar-lein tra oedd yr athro'n defnyddio hyfforddiant uniongyrchol gyda disgyblion eraill. Fe wnaeth hyn alluogi athrawon i gynorthwyo disgyblion i ddefnyddio meddalwedd a lanlwytho gwaith i blatfform digidol tra oeddent yn yr ysgol. Hefyd, fe wnaeth ganiatáu i'r ysgol fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gweithgareddau a'r tasgau a osodwyd fel dysgu o bell. Mae'r ysgol yn addasu ei hymagwedd yn dilyn adborth o'r broses hon.

Yn ôl y disgwyl, roedd angen cymorth ychwanegol ar lawer o ddysgwyr i gyflymu'u dysgu pan ddychwelont i'r ysgol. O ganlyniad, cydnabu GwE a'i randdeiliaid bod angen amlygu strategaethau addysgu effeithiol i gefnogi ysgolion a dysgwyr. Trwy adolygiad o lenyddiaeth ymchwil, ynghyd ag ymchwil a wnaed mewn ysgolion yn y rhanbarth, datblygodd GwE ganllaw i helpu ysgolion amlygu'r strategaethau addysgu a'r rhaglenni ar-lein mwyaf effeithiol a allai helpu ysgolion i wella medrau craidd disgyblion. Yn benodol, canolbwyntiodd GwE a'r ysgolion yn y rhanbarth ar wella medrau darllen disgyblion, gan gynnwys eu medrau deall, rhuglder a geirfa, ynghyd â gwella'u medrau rhifedd. Lluniwyd rhai o'r strategaethau a'r deunyddiau cymorth hyn yn benodol i'w defnyddio mewn ysgolion a chan rieni gartref i gefnogi dysgu'u plant. Mae llawer o'r adnoddau a'r strategaethau'n deillio o brosiectau ymchwil cydweithredol diweddar a wnaed gydag ysgolion GwE drwy'r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), sef partneriaeth rhwng Prifysgol Bangor a GwE.

Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae uwch arweinwyr yn awyddus i swyddogion yr awdurdod lleol a GwE gynyddu'u rôl monitro a sicrhau ansawdd fel bod swyddogion yn cael dealltwriaeth gadarn o ansawdd y ddarpariaeth ar draws eu hysgolion. Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio asesiadau cyn y cyfnod clo i amlygu sut mae medrau disgyblion wedi datblygu yn ystod dysgu gartref. Mae YCG wedi annog ysgolion i ystyried ystod eang o dystiolaeth ers Medi er mwyn amlygu bylchau yn nysgu'r disgyblion. Mae ysgolion yn nodi'u bod wedi cael trafodaethau defnyddiol gydag YCG am ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ran cynnydd disgyblion dros y misoedd diwethaf. Er enghraifft, mae'n ymddangos bod rhai disgyblion wedi gwneud cynnydd sicr gan eu bod wedi cael ystod eang o weithgareddau penagored, a roddodd gyfleoedd buddiol iddynt wneud eu dewisiadau eu hunain.

Addaswyd y cynnig dysgu proffesiynol 'arferol' i sicrhau bod ysgolion a lleoliadau'n cael cymorth perthnasol a phwrpasol. Mae hyn wedi'u galluogi i addasu yn ôl yr amgylchiadau heriol. Yn ein hymgysylltiad ag ysgolion, mae'r rhan fwyaf o benaethiaid wedi canmol cynnwys y dysgu proffesiynol a gynigiwyd gan GwE yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, mae wedi darparu hyfforddiant trwy weminarau ar ddulliau dysgu carlam penodol seiliedig ar ymchwil ym Mhrifysgol Bangor. Enghraifft arall yw'r ffordd y mae'r rhaglen arweinyddiaeth ganol wedi cael ei theilwra i fynd i'r afael â sut i arwain mewn cyfnodau o argyfwng a newid. Rhoddodd y cynnig dysgu proffesiynol flaenoriaeth i helpu ysgolion i wella medrau digidol eu staff a'u galluogi i ddatblygu dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol ac ymgysylltiad mwy effeithiol gan ddysgwyr.

Mae'r consortiwm rhanbarthol yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i ysgolion gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol er mwyn gwella llythrennedd, rhifedd a strategaethau dysgu carlam disgyblion. Mae hyn yn cynnwys prosiect helaeth SAFMEDS (Say All Fast Minute Every Day Shuffled) i wella rhuglder medrau mathemateg sylfaenol disgyblion gan ddefnyddio strategaeth addysgu seiliedig ar dystiolaeth. Mae rhaglenni cymorth eraill i ysgolion yn cynnwys ystod gynhwysfawr o ddeunyddiau ac adnoddau hyfforddiant, fel pecyn cymorth llythrennedd dwyieithog, i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd disgyblion. Mae

GwE wedi bod yn hyfforddi aelodau staff sydd wedyn yn cyfleu'r hyfforddiant hwnnw i eraill mewn ysgolion ac UCDau. Mae arweinwyr a staff ysgol yn elwa o hyfforddiant trwy weminarau, rhwydweithiau arweinwyr pwnc, a chyfarfodydd rhwng arweinwyr dysgu ac addysgu. Rhannwyd adnoddau i hyrwyddo llythrennedd a rhifedd trwy bob cydlynydd. Mae GwE yn hwyluso gwaith rhwng ysgolion i rannu arfer dda a syniadau ynghylch dysgu ac addysgu trwy'r pandemig presennol. Hefyd, mae cymorth i ysgolion fyfyrio ar ansawdd y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod clo a defnyddio'r wybodaeth hon wrth iddynt baratoi i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae penaethiaid yn nodi bod yr adnoddau hyn yn rhoi sylfaen gadarn iddynt arsylwi modelau arfer effeithiol.

Mae llawer o awdurdodau lleol y rhanbarth o'r farn bod ysgolion a'r consortiwm rhanbarthol wedi newid eu ffordd o weithio, a hynny er gwell, mewn sawl ffordd. Yn benodol, mae'r awdurdodau lleol hyn yn gadarnhaol am y datblygiadau ym maes TGCh ac maent yn cydnabod bod gwella gallu o ran TGCh wedi bod yn broses ddysgu sydyn i bawb. Hefyd, gwelant fod cyfleoedd dysgu proffesiynol mwy helaeth ar gael trwy ddefnyddio amrywiaeth o blatfformau digidol. Dywed llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol fod staff yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol dewisol pan y gallant wneud hynny o bell a phan fydd yn gyfleus iddyn nhw.

**Cefnogi dysgwyr bregus**

Mae YCG GwE, ar y cyd â swyddogion awdurdodau lleol, wedi rhoi cymorth pwrpasol i benaethiaid a staff ysgol hyrwyddo lles ac, ar adeg addas, ddechrau ystyried darpariaeth a dysgu. Nododd penaethiaid fod YCG wedi cynnig cydbwysedd effeithiol rhwng cymorth ar gyfer lles dysgwyr ac arweiniad ar ddysgu yn ystod y tymor hwn. Dywedant fod ysgolion yn teimlo straen enfawr wrth geisio cael y cydbwysedd yn gywir rhwng gwella'r ysgol a blaenoriaethu lles staff a dysgwyr.

Mae YCG y rhanbarth sydd â chyfrifoldeb am grwpiau bregus wedi darparu adnoddau pwrpasol i ysgolion a rhieni ac mae'r rhain ar gael ar wefannau AAA a Chynhwysiant bob un o'r awdurdodau lleol. Mae'r YCG hwn yn mynychu cyfarfodydd bob hanner tymor gyda swyddogion addysg bob awdurdod lleol a chynrychiolwyr gwasanaethau plant er mwyn casglu gwybodaeth bwysig am agweddau ar ddysgu y mae angen cymorth pellach arnynt. Mae hyn wedi arwain at ymagwedd fwy targedig at gymorth.

Mae swyddogion GwE wedi cydweithredu ag ysgolion ac awdurdodau lleol mewn amrywiaeth o fforymau. Er enghraifft, cyfrannodd swyddogion at waith y Grŵp ADY/Cynhwysiant rhanbarthol a lluniont gynnwys ar gyfer y dangosfwrdd ar-lein. Hefyd, trefnwyd gyriant rhanbarthol o wybodaeth ac adnoddau, wedi'i rannu rhwng pob un o'r chwe awdurdod lleol. Mae YCG GwE yn parhau i fynychu grwpiau lles a diogelu awdurdodau lleol i rannu arfer a gwybodaeth, a'r grŵp ansawdd rhanbarthol hefyd, er mwyn cydweithredu â'r gwaith i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Yn ystod ein galwadau ymgysylltu ag ysgolion, roedd penaethiaid yn gadarnhaol am y cymorth a'r cyngor a ddarparodd GwE i'w helpu i gynllunio sut i ddefnyddio'r grant 'Recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam'. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am fonitro'r gwariant, y cydymffurfio ac am sicrhau bod cynlluniau yn gynaliadwy, a swyddogion consortiwm yn gyffredinol sy'n arwain ar gynghori ysgolion ar ddarpariaeth briodol ac effeithiol.

Mae arweinwyr GwE wedi cyfleu mai penaethiaid sydd yn y lle gorau i flaenoriaethu sut dylid gwario'r cyllid grant ychwanegol hwn. Mae cymorth a chyngor ar gael i ysgolion ond mae YCG ac awdurdodau lleol yn awyddus i roi annibyniaeth i ysgolion ddatblygu'u syniadau eu hunain am sut yn union i dargedu'r grant. Darparodd GwE ffurflen i ysgolion a derbyniodd eu cynlluniau, yna cytunwyd ar y rhain gyda'r awdurdod lleol. Mae GwE wedi creu dangosfwrdd defnyddiol a chronfa o ddogfennau ac adnoddau ar ei wefan yn gysylltiedig â'r grant Recriwtio, adfer a chodi safonau, fel y gall ysgolion gael at wybodaeth yn sydyn i gael syniadau am wario'r grant, er enghraifft cymorth i gynnal grwpiau ymyrryd bach. Hefyd, mae GwE yn ymwybodol o'r angen i gefnogi a chynghori rhai ysgolion yn fanylach, i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i sicrhau'r effaith fwyaf.

Mae GwE yn gweithio ochr yn ochr â'i gydweithwyr mewn awdurdodau lleol i ddatblygu un dull o fonitro gwariant y grant Recriwtio, adfer a chodi safonau ar draws chwe awdurdod y gogledd. Yn ogystal, disgwylir i ysgolion ddangos bod eu cynlluniau yn gynaliadwy. Dywedodd rhai ysgolion bach wrthym eu bod wedi cael trafferth recriwtio staff, oherwydd bydd cyllid y grant yn cynnal darpariaeth ar gyfer nifer cyfyngedig o oriau ychwanegol yn unig. Yn ôl YCG, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion llai yn defnyddio'r grant i ychwanegu at oriau cyflogaeth aelodau staff presennol a rhoi hyfforddiant iddynt fel y byddant yn parhau i elwa o'r arbenigedd pan ddaw'r cyllid i ben.

Yn genedlaethol, mae swyddogion GwE wedi cyfrannu at waith amrywiol weithgorau gyda ffocws ar les a dysgwyr bregus. Er enghraifft, cyfrannodd YCG sydd â chyfrifoldeb am les at grŵp cenedlaethol y Grant Datblygu Disgyblion gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cyfathrebu rheolaidd, rhoi'r diweddaraf am ddatblygiadau rhanbarthol, a rhannu gwybodaeth gyda'r consortiwm.

Mae GwE wedi cynorthwyo awdurdodau lleol ac ysgolion i ymateb i anghenion lles dysgwyr bregus, yn enwedig wrth ddarparu dysgu proffesiynol ategol i staff. Mae'r consortiwm wedi gweithio ar y cyd ag ysgolion unigol, clystyrau o ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi ymagwedd dargedig a chyffredinol at les dysgwyr a staff. Mae wedi strwythuro'r cynnig dysgu proffesiynol hwn i gefnogi'r dysgu yn yr ysgolion. Â lles y dysgwr yn ganolog i'r cynnig, gall ysgolion elwa o'r adnoddau a'r strategaethau yn y cynnig cyffredinol sydd ar gael i bob ysgol neu ddewis cynnig targedig. Hyd yn hyn, mae llawer o ysgolion wedi profi, rhannu ac elwa o weld enghreifftiau o arfer effeithiol gan ysgolion yn eu hawdurdod lleol ac ar draws y rhanbarth. Mae'r adnoddau ymyrryd ymarferol i ysgolion eu defnyddio, sydd â'r Pum egwyddor i gefnogi dysgu gartref' [EEF, 2020] yn sylfaen iddynt, yn ffocws trafodaethau gan YCG gydag ysgolion wrth iddynt gynllunio a chyflwyno'u rhaglenni dysgu carlam.

Enghraifft dda o gynnig dysgu proffesiynol yw'r 'Rhaglen dychwelyd i ysgolion i ysgolion ystyriol o drawma'.  Drwy'r rhaglen hon, caiff sesiynau ysgol gyfan eu hwyluso am effaith y pandemig a dadansoddiad o'r strategaethau y gallai ysgolion ystyried eu defnyddio wrth i'w dysgwyr ddychwelyd.  Roedd hyn yn cynnwys egwyddorion a modelau dysgu ac addysgu allweddol.  Rhoddodd nifer o ysgolion sylwadau am y rhaglen hon a nodi ei bod yn ddefnyddiol i gynyddu nifer y staff sy'n ystyriol o drawma ac yn gwybod am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.  Hefyd, soniodd yr ysgolion hyn fod staff addysgu wedi dod yn fwy hyderus i gynorthwyo ysgolion a nodi cymorth a darpariaeth addas.